



# HEDDWCH

Rhifyn 80 > Mis Ebrill 2022 > CND Cymru > Yr Ymgrych dros Ddiarfogi Niwclear

## ОСТАНОВИТЬ ВОЙНУ

Dai Owen



Rhaid atal y rhyfel hwn a'i droseddau yn erbyn dynoliaeth. Mae ymosodiad ysgytwol Rwsia ar Wcráin wedi cynyddu'r perygl o wrthdaro niwclear yn aruthrol. Mae taer angen am waharddiad byd-eang ar bob arf niwclear yn awr.

## SEFYLL GYDA'N GILYDD DROS HEDDWCH

*Protestiadau gwrth-ryfel yn Abertawe, Caerdydd, Caernarfon*



*Anfonodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin ar 24 Chwefror donau o arswyd o gwmpas y byd a theimlwyd y rhain ym mhob rhan o Gymru. Cafwyd rhyferthwy o gydymdeimlad â phobl Wcráin, a'u cymunedau a'u teuluoedd yng Nghymru, a hefyd o gyd-gadernid â'r Rwsiaid hynny a fu'n protestio yn erbyn y rhyfel ym Mosgo a St Petersburg.*





# Yn enw dynoliaeth...ATALIWCH Y RHYFEL

*Mae cyrch Rwsia ar Wcráin a gychwynodd ar 24 Chwefror 2022 yn ffyrnig ac yn greulon. Yn nhair wythnos gyntaf y gwrthdaro, mae mwy na 3 miliwn o Wcreiniaid wedi ffoi o'r wlad.*

Mae lluoedd a thanciau yn amgylchynu dinasoedd ac yn chwalu blociau o fflatiau yn rwbel. Mae'r gwrthsafiad yr Wcreiniaid yn ffyrnig ac yn angerddol. Mae nifer y meirw a'r clwyfedig yn destun dadl, ond gwyddom y lladdwyd llawer o blant. Mae cam-hysbysrwydd yn rhemp.

## Ofnau niwclear

Ar 1 Mawrth gorchymynodd Putin osod ei arfogaeth niwclear ar lefel o uwch-wyliadwraeth. Ar ddechrau'r gwrthdaro meddianwyd gorsaf bŵer segur Chernobyl. Cododd lefelau ymbelydredd yno o achos traffig milwrol trwm ar y safle. Ar 3 Mawrth taniwyd ffrwydron at orsaf bŵer niwclear fwyaf Ewrop yn Zaporozhzhia, a gipiwyd gan filwyr Rwsiaidd. Ers tro byd, bu hebogiaid fel Antony Blinken, Ysgrifennydd Gwladol yr UD, yn darogan Rhyfel Oer arall. Mae wedi cychwyn nawr, a ffrwydro'n fflamau.

## Blaenoriaethau presennol

Yr angenrheidiau hanfodol yn ddiymdroi yw cadoediad, diogelu coridorau dyngarol, a negydu ystyrion yn arwain tuag at dynnu holl luoedd Rwsia o Wcrain. Deilliodd mymryn o obaith o drafodaethau Rwsia ac Wcráin o'r 13 Mawrth


ymlaen, ond mae'r rhagolygon yn dal yn llwm. Mae'r perygl o ddatblygu'n rhyfel Ewropeaidd neu hyd yn oed yn Drydydd Rhyfel Byd yn parhau'n real iawn. Gallai unrhyw waethygu, unrhyw ymladd estynedig, rhyw anap neu gamddealltwriaeth syml fod yn drychinebus.

## Pam mae hyn yn digwydd?

Mae rhai sylwebwyr yn beio'r cwbl ar y 'Gorllewin, gan alw sylw at gyrch NATO tua'r dwyrain ar ôl ailuno'r Almaen, neu ar chwalfa gyfalafol cyfnod Yeltsin, a ddiffyg diplomyddiaeth cyson. Mae eraill yn beio breuddwydion imperialaidd Putin, gan ei weld fel tsar

diweddar neu ryw Stalin sydd am 'wneud Rwsia'n fawr eto'. Mae ei record o erchyllterau milwrol yn ymestyn yn ôl i Grozny yn Ail Ryfel Chechnya. Mae gan Rwsia gwynion dyls. Mae Putin yn eu defnyddio i hyrwyddo ei agenda awdurdodaidd ei hun. Y cwbl a wna'r ymosodiad ar Wcráin yw cynyddu problemau beunyddiol pobl Rwsia.

Mae **t4** o'r *Heddwch* hwn yn edrych ar lwybrau tuag at heddwch parhaol, a pham nad yw hynny'n cynnwys NATO; gwel. **t5** am oblygiadau niwclear a'r angen am waharddiad bydeang, a **t6** am yr ymryson bydeang a safonau dwbl.



*Cynhrchydd teledu yn protestio ar newyddion genedlaethol Rwsia.*

# NID NATO YW'R ATEB

*Dechreuodd NATO ehangu ar ôl ailuno'r Almaen ym 1990. Bryd hynny, rhybuddiodd rhai pe symudai NATO tua'r dwyrain y gallai arwain at Ryfel Oer arall. Roedden nhw'n iawn. Mae ofn Rwsia o oresgyniad o'r gorllewin yn seiliedig ar sawl trawma hanesyddol ac mae Putin yn ymateb i'r pryder cenedlaethol parhaus hwn er mwyn cryfhau ei gefnogaeth wleidyddol.*

Gyda'r cyrch ar Wcraín, mae'n anochel y bydd galw ar NATO i ymyrryd ac ehangu ymhellach. Ond os mai heddwch a diogelwch hirdymor yw'r nod, byddai hynny'n drychinebus. Ni all cloi Ewrop i mewn i feddylfryd Ryfel Oer parhaol ond hyrwyddo ofn ac ymgiprys. Mae a wnelo NATO yn ei hanfod â gwrthwynebiad strategol a braw-ataliaeth niwclear. Dylid fod wedi ei ddileu pan ddiddymwyd Cytundeb Warsaw ym 1991. Yn hytrach, penderfynodd UDA ganolbwyntio ar sicrhau hegemoni byd-eang. Arweiniodd y safiad rhyfygus hwn at y rhyfeloedd trychinebus yn Afghanistan ac Irac a gallai esgor ar fwy eto.

## **Diplomyddiaeth a détente**

Os bydd llwybr tuag at ateb diplomyddol yn ymddangos, rhaid dod â rhywbeth i'r bwrdd negydu i ddatrys sefyllfa annatod. Niwtralïaeth efallai, neu gytundeb ar leoli taflegrau. Yn ystod argyfwng taflegrau Ciwba ym 1963 darbwylodd John F Kennedy yr Undeb

Sofietaidd i symud ei thaflegrau o Ciwba, ond ar draul quid pro quo – gan gytuno i symud taflegrau UDA o'r ffin rhwng Twrci a'r Undeb Sofietaidd.

Mae'n well defnyddio sancsiynau economaidd na bomiau, yn enwedig yn erbyn yr oligarchiaid, y deilliodd eu cyfoeth o ysbeilio asedau'r wladwriaeth. Ar y llaw arall, mae perygl y gallai mân sancsiynau yn erbyn Rwsiaid cyffredin gynyddu'r gefnogaeth i naratif Putin.



## **Aildiffinio heddwch a diogelwch**

Yn y tymor hwy dylem geisio cytundebau newydd i sicrhau heddwch yn y dyfodol. Gallai hynny fod trwy'r Cenhedloedd Unedig (os gellir byth diwygio system fetor Cyngor Diogelwch). Gallai cytundeb rhanbarthol newydd ar gyfer holl wledydd Ewrop, yn cynnwys y rhai ôl-Sofietaidd a Rwsia ei hun, drawsnewid y cyfandir. Dylai hyn fod yn annibynnol ar UDA a'i huchelgais. Nid Putin biau'r dyfodol: mae dewrder protestwyr Rwsia yn erbyn y rhyfel yn ystod yr wythnosau diwethaf yn awgrymu y gall fod yna ffordd arall ymlaen, wrth i bobl siarad â phobl.

## **Mae ar bob ffoadur angen ein help**

Os mai ffoadur o Syria neu Afghanistan ydych, efallai mae ffens weiren bigog a gyniga Ewrop i chi. Os ydych yn ffoadur gwyn o Wcraín, gall clwydi gael eu hagog. Fodd bynnag, mae holl ddioddefwyr rhyfel yn haeddu'r un ystyriaeth. Mae angen dirfawr am atebion dynol i'r argyfwng ffoaduriaid neu, fel arall, gall esgor ar wrthdaro pellach.

# ANGEN BRYN AM WAHARDDIAD NIWCLEAR BYD-EANG

Yn Wcráin, mae chwarae ar fin y dibyn niwcLEAR wedi codi'r risg o ryfel niwcLEAR i lefel beryglus. Gyda ras arfau newydd eisoes ar y gweill, a sôn cynyddol am niwCS 'maes y gad', gwaharddiad byd-eang yw'r unig ffordd resymegol ymlaen.

## Cynhadledd Fienna

Ers cyhoeddi *Heddwch* 79, mae tair gwlad arall – Guinea-Bissau, Peru, a Mongolia – wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Wahardd Arfau NiwcLEAR (TPNW), gan ddod â'r cyfanswm a gadarnhaodd i 59. Mae cyfarfod cyntaf aelodau'r cytundeb, a oedd i gael ei gynnal y mis Mawrth hwn yn Fienna, wedi'i ohirio hyd (yn ôl pob tebyg) fis Mehefin neu Orffennaf; gobeithio y bydd hyn yn caniatáu i fwy o wledydd gwblhau'r broses gadarnhau fel y gallant gymryd rhan lawn yn y gynhadledd. Bydd cadeirydd CND Cymru Jill Evans a'r gweithredydd Thomas Pitt yn cynrychioli CND Cymru mewn cyfarfodydd ymgyrchu a digwyddiadau a drefnir gan ICAN (Yr Ymgyrch Ryngwladol i Diddymu Arfau NiwcLEAR) i gyd-fynd â chynhadledd y llywodraethau.

## Targedu'r cyllid

Yn ddiweddar, rhyddhaodd ICAN adroddiad o bwys o'r enw *Rejecting Risk*, yn cofnodi datblygiadau yn y sector cyllidol

## Y Senedd yn pleidleisio i gefnogi'r TPNW

Fel rhan o benderfyniad y Senedd ar Wcráin, galwodd y Senedd ar bob gwladwriaeth i gefnogi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau NiwcLEAR (TPNW):

"Yn cydnabod bod y gwrthdaro hwn yn cynyddu'r perygl o ryfel niwcLEAR ac ofn rhyfel niwcLEAR ymhlith pobl Cymru a thu hwnt... Felly [mae] yn galw ar bob gwladwriaeth, gan gynnwys y gwladwriaethau niwcLEAR, i arwyddo a chadarnhau Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau NiwcLEAR a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2021 ac a fyddai'n atal bygythiad o'r fath yn y dyfodol."

rhyngwladol er i'r TPNW ddod i rym. Manyl'r adroddiad ar fwy na 100 o sefydliadau cyllidol rhyngwladol sydd wedi mabwysiadu polisïau i wahardd buddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu arfau niwcLEAR. "Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn union sut mae'r TPNW yn newid normau a gorfodi'r sector cyllid i ail-edrych ar eu blaenoriaethau" yn ôl Beatrice Fihn, Cyfarwyddydd ICAN. "Mae natur ryngwladol cyllid yn ei gwneud yn ofynnol i fanciau a buddsoddwyr

wahardd yr arfau anghyfreithlon ac annynol hyn, pr'un ai a yw eu gwladwriaeth wedi ymuno â'r cytundeb ai peidio."

Mae'r adroddiad ar gael yn [https://www.icanw.org/101\\_investors\\_say\\_no\\_to\\_nuclear\\_weapons](https://www.icanw.org/101_investors_say_no_to_nuclear_weapons)

**BRIAN JONES**

A hoffech chi gael gwybod mwy am gefndir y TPNW a'i gynigion? Ceir erthygl gan Susi Snyder o ICAN ar wefan CND Cymru yn <https://www.cndcymru.org/>



*Gadewch i ni gymryd POB arf niwcLEAR allan o'r hafaliad – mae gan y byd ormod o gadfridogion ac arlywyddion gorffwyll*

## CYLCH BYD-EANG Y RHYFEL OER NEWYDD

*Partneriaeth filwrol newydd rhwng Awstralia, y Deyrnas Unedig, ac Unol Daleithiau America yw AUKUS. Does gan Awstralia ddim arfau niwclear ond o dan y cytundeb hwn bydd yr UD a'r DU yn cyflenwi llongau tanfor pŵer-niwclear i Awstralia eu defnyddio ar batrôl yn y Môr Tawel.*

Gellir dadlau nad partneriaeth filwrol newydd sbon mo AUKUS yn dechnegol, gan fod cytundebau milwrol a domestig â gogwydd niwclear wedi bodoli rhwng Awstralia, y DU ac UDA ers blynnyddoedd lawer. Fodd bynnag, y mae

AUKUS yn dwysáu'r sefyllfa ac y mae iddo gynodiadau peryglus iawn o ran cyfiawnder byd-eang a diogelwch niwclear.

Mae'r Môr Tawel, lle bydd y llongau tanfor ar batrôl, eisoes wedi dioddef imperialiaeth niwclear – sef profion arfau niwclear yr UD a'r DU dros

Ynysodd Marshall ac Ynys y Nadolig yn ystod y 1940au a'r 1950au. Mae AUKUS hefyd yn tramgwyddo'r Cytundeb Atal Ymlediad a lofnodwyd gan America a Phrydain ymhlith eraill er mwyn atal ymlediad arfau a thechnoleg niwclear. Yn drydydd, caiff y llongau tanfor eu gyrru gan wraniwm digon

pur i greu arfau niwclear. Mae ffrind i mi o CND Manceinion Fwyaf wedi penderfynu ynganu AUKUS fesul llythyren – A.U.K.U.S – rhag iddo lithro oddi ar y tafod mor rhydd ag y gwna 'NATO' yn nawr. Mae'n rhywbeth dwi wedi dechrau'i wneud hefyd.

**BETHAN SIÂN**



*Dim rhyfel ar China! Protestwyr 'Atal AUKUS' ar strydoedd Sydney, Awstralia*

- Tra bod y rhyfel yn Wcráin yn cael holl sylw'r cyfryngau, anwybyddir trychinebau byd-eang eraill: bomio yn Yemen, dienyddio torfol yn Saudi Arabia, trais gan setlwyrym Mhalestina, cyrchoedd bomio Israel yn Syria, newyn yn Afghanistan a gormes gan y fyddin ym Myanmar

- Galwodd cyn-Brif Weinidog Japan, Shinzo Abe, am leoli taflegrau niwclear yr UD yn

Japan, gan wrthdroi tabŵ a fu mewn grym ers Hiroshima a Nagasaki ym 1945. Mae hyn wedi ymfflamychu cysylltiadau â China.

- Bu newid seismig ym mholisi tramor yr Almaen o dan Olaf Scholz, o ganlyniad i'r rhyfel. Ei blaid, yr SPD, oedd pensaer détente o dan Willy Brandt. Bydd yr Almaen nawr yn cynyddu ei gwariant ar amddiffyn a'i chyfranogiad milwrol.

- Os ydych yn hawlio'r tir uchel moesol, doeth fyddai ei feddiannu. Mae Joe Biden yn cyfeirio at UDA fel arweinydd y Byd Rhydd. Fodd bynnag, mae record y 'Byd Rhydd' hwn yn gyforiog o safonau dwbl. Fallujah? Gaza? Guantánamo? My Lai? A phan ddaw'n fater o ymyrryd yng ngwleidyddiaeth eich cymdogion, mae gan yr Unol Daleithiau record ofnadwy yn ei 'iard gefn' ei hun.



# GWEITHIO DROS HEDDWCH YN Y DWYRAIN CANOL

*Y llynedd, rhoddwyd cynnig brys gan CND Cymru ger bron cynhadledd CND y DU, i fynd i'r afael â'r tensiynau cynyddol rhwng Israel ac Iran wedi i Trump dynnu allan o gytundeb niwclear Iran, y JCPOA, yn 2018, a'r tebygolrwydd cynyddol o ras arfau niwclear yn y rhanbarth.*

Er syndod i rai, bu'r weminar a gynhaliwyd o ganlyniad i hyn ym mis Chwefror, *Working for Peace in the Middle East*, yn llygedyn prin o obaith yn y dyddiau tywyll hyn. Yng nghyd-destun hanes ymyriadau trefedigaethol Prydain, a amlinellwyd yn glir gan Kate Hudson o CND, a pholisi tramor cyfredol y DU a symbylir gan werthiant arfau a gwrthdaro, a ddisgrifiwyd mewn manylder erchyll gan Andrew Feinstein (cyfarwyddyd Shadow World Investigations), awgrymodd lleisiau o Sefydliad Cytundeb y Dwyrain Canol (METO) ffyrdd newydd o feddwl am y rhaniadau.

Trwy lunio drafft o eiriad Cytundeb, mae METO yn ceisio dileu meddu, cynhyrchu, crynhoi a defnyddio arfau niwclear, cemegol a biolegol. Aelodau'r sefydliad yw 22 o wledydd y Gynghrair Arabaidd, ynghyd ag Iran ac Israel. Y siaradwr cyntaf o METO oedd Sharon Dolev, yr ymgyrchydd ICAN o Israel, gweithredwraig heddwch a hawliau dynol. Tynnodd sylw at y ffaith

ei bod yn hawdd collfarnu, er enghraifft, Israel, am fethiannau o amgylch y Cytundeb Atal Ymlediad (NPT), ond mai'r gwledydd ag arfau niwclear yn gyffredinol sy'n methu cytuno ac sydd heb feddu ar y gred na'r ewyllys da i allu dychmygu posibiliadau parth di-niwclear. Does ganddyn nhw ddim byd cadarnhaol i'w gynnig.

Gofynnodd y cwestiwn, pa amodau fyddai'n dod ag Israel at y bwrdd? Sut mae meithrin hyder ac ymddiriedaeth rhwng cenhedloedd, pan fo rhai fel yr UD yn gwrthod mynychu cynadleddau, a'r DU hefyd yn gweithredu i atal cytundeb? Awgrymodd Sharon y gallai CND chwarae rhan mewn newid y sefyllfa honno. Gallwn eiriol dros Gytundeb Drafft METO.

Yr ail siaradwr oedd Emad Kiyaei, cynghorydd polisi i'r Cyngor Iran-Americanaidd, a oedd yn bresennol yn ystod negydu'r cytundeb niwclear. Siaradodd hefyd am yr angen a'r cyfle i gymdeithas sifil fod yn rhan o lunio testun y Cytundeb, gan ymuno yn y gwaith, a phwyso ar Swyddfa Dramor y DU i ymuno â'r gwaith rhwng sesiynau. Gall CND a chyrrff NGO eraill ddod â llais amgen i naratif presennol y DU, sef nad yw'r amseru'n iawn ar gyfer diarfog.

Fe'i gwnaed yn glir gan y siaradwyr hyn bod gennym ran i'w chwarae wrth ddiogelu'r broses heddwch bresennol. Gellir darllen y Cytundeb Drafft ar wefan METO:

<https://www.wmd-free.me/>

**LINDA ROGERS**



*Mae METO yn fudiad o weithredwyr cymdeithas sifil sy'n ceisio cael gwared o bod arf dinistr torfol o ranbarth MENA*

# LANSIO'R ACADEMI HEDDWCH

*Er ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Medi 2020, cafodd yr Academi Heddwch effaith eisoes meddai Jill Evans*

• Trefnodd yr Academi Heddwch raglen lwyddiannus o weithgareddau heddwch yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen 2021 ar ran Llywodraeth Cymru. Gobeithir cael cyllid pellach gan y Llywodraeth ar gyfer rhaglen dair-blynedd gyffrous ac uchelgeisiol o weithgareddau a fydd yn helpu i greu'r gymdeithas heddychlon rydym oll am ei gweld yng Nghymru. Wrth wraidd y cwbl bydd ffocws ar wir ystyr heddwch ar bob lefel.

• Bwriadwn gwblhau rhaglen ymchwil ar amddiffyn Cymru, gan ofyn beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd yn yr 21ain ganrif, yng ngoleuni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

• Rydym yn cydlynu'r gwaith i goffáu'r ddeiseb heddwch anhygoel gan fenywod Cymru i fenywod UDA ar ei chanmlwyddiant yn 2023-24. Bydd hyn yn cynnwys arddangosfa fawr a chyhoeddi llyfr i adrodd y stori ryfeddol.

• Rydym wrthi'n sefydlu cysylltiadau pwysig gyda sefydliadau heddwch tramor, gan weithio i sicrhau y daw Cymru'n rhan o'r rhwydwaith byd-eang hwn

• Ar Ddydd Gŵyl Dewi buom ar y cyd â'n sefydliad cynhaliol, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, yn trefnu seminar *Cymru dros Heddwch yn Wcrain* ar-lein gyda'r siaradwyr Dr Jenny Mathers o Brifysgol Aberystwyth a'r Athro Cara Aitchison o Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn yr amseroedd ofnadwy hyn pan fo pobl yn daer eisiau dangos eu hundod gyda'r Wcráin, dim rhyfedd bod dros 150 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad. Clywsom hefyd gan Viktoria Grivina o Wcráin, cyn-wirfoddolwr WCIA sydd



bellach yn astudio yn yr Alban. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y deg cam gweithredu ar gyfer addysg Gymraeg a gyflwynwyd gan Cara, edrychwch ar wefan WCIA:

<https://www.wcia.org.uk/wcia-news/stdavidsday2022-ukraine/>

• Mae'r Academi Heddwch yn trefnu digwyddiad pellach ar-lein ar thema Heddwch ac Iechyd ar 31 Mawrth 2022, ar y cyd â'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth. Dyma ddolen Eventbrite:

HEDDWCH AC IECHYD - 'PEACE AND HEALTH' Tickets, Thu 31 Mar 2022 at 09:30 | Eventbrite

• Mae digwyddiadau yn yr Wcráin yn dangos yr angen am Academi Heddwch fel llais i Gymru wrth ymateb i ddigwyddiadau rhyngwladol ac wrth arwain gwaith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu. Galwn am ddiwedd ar unwaith i'r goresgyniad a rhaid inni edrych i'r dyfodol ac ar sut i gryfhau dulliau datrys gwrthdaro heddychlon. Fel y dywedodd yr Athro Cara Aitchison, "Bydd ysgogi adeiladu heddwch yn gwneud gwahaniaeth."



## ROLLS-ROYCE: FFORDD BENGAEAD ARALL

*Er bod bygythiad adweithyddion niwclear mawr newydd fel cynllun Hitachi/ Horizon wedi cilio, mae'n rhaid i ni danseilio dadl Rolls-Royce bod Trawsfynydd a'r Wylfa yn safleoedd da i leoli eu hadweithydd modiwlaid 470 megawatt.*

Dylem wrthod y gair 'bach' yn llwyr fel disgrifiad o'r adweithydd modiwlaid hwn. Nid yw'n fach o gwbl. Cofiwch fod hyn yn ddwbl allbwn trydan un o'r ddau hen adweithydd Magnox yn Nhrawsfynydd.

Mae adweithydd Rolls-Royce yn gyfartal fwy neu lai ag un o'r ddau adweithydd Magnox mawr yn y Wylfa. Dymuniad Rolls-Royce yw adeiladu pump o'r adweithyddion hyn i ddechrau, ar gefn cymorth ariannol mawr o'r pwrs cyhoeddus. Maen nhw wedi bod yn gweithio ar y cynllun ers tua chwe blynedd yn barod a chawsant gymhorthdal hael iawn gan y llywodraeth Doriaidd yn ddiweddar



**Ag yntau dan bwysau, cyfarfu Johnson â'r lobïwr niwclear Virginia Crosbie AS yn Wylfa fis Chwefror.**

o £210 miliwn i barhau â'r gwaith datblygu. Maen nhw'n dweud y byddai pob adweithydd yn costio £2 biliwn. Felly o ble y byddai'r arian i fuddsoddi yn dod? Hen gwestiwn poenus i'r diwydiant niwclear sydd wedi golygu tranc Horizon a diwedd prosiect adweithyddion AP1000 ar safle V.C. Summer yn Ne Carolina.

Ychwanegwch at hyn gwestiwn oesol y gwastraff ymbelydrol fyddai'n cael ei gynhyrchu o adweithydd Rolls-Royce. Credir y byddent yn defnyddio tanwydd wraniwm

dwysach yn union fel EPR cwmni EdF yn Hinkley. Byddai'r tanwydd hwnnw'n creu gwastraff poethach a mwy ymbelydrol na'r hen orsafoedd niwclear.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi cyn-uwch swyddog gyda chwmni Horizon, Alan Raymant, yn gyfarwyddwr Cwmni Eginor ar safle Trawsfynydd. Beth all fynd o'i le?! Ein gwaith ni fydd sicrhau mai edwino yn hytrach nac eginor fydd hanes y diwydiant niwclear yn Nhrawsfynydd a'r Wylfa.

**DYLAN MORGAN,  
PAWB**

**"Amlygodd yr ymosodiad ar adweithydd niwclear Zaporozhzhia gan luoedd Rwsia yn Wcraïn unwaith eto beryglon pŵer niwclear sifil.**

**Er mai ei bwrpas ymddangosiadol yw cynhyrchu ynni at ddibenion heddychlon, mae'n fygythiad marwol pan aiff rhywbeth o'i le, ac wrth gwrs, mae iddo gysylltiad clòs hefyd â chreu arfau niwclear milwrol."**

**STEPHEN THOMAS,  
CND CYMRU**

## ARBED ABER HAFREN

Bydd y broses o lygru afon Hafren â mwd ymbelydrol a garthwyd wrth adeiladu Hinkley C yn wynebu her newydd ar 8 Mawrth pan geisir adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys yn Llundain. Wrth i ni fynd i'r wasg, nid yw'r Llys wedi dyfarnu eto.

Ychwanegu llifogydd diweddar agwedd bellach at bryderon y cyhoedd.



## YMA, ACW...



## AC YM MHOBMAN

Branwen Nicolas



Gwynos heddwch yn Llangefni, Mawrth 2022

**Heddwch yn Wcráin**

Cynhaliwyd protestadau, gwynosau a chyngherddau yn erbyn y rhyfel yn Wcráin yng Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe, Tonna, Pontypridd, Llambed, Caerfyrddin, Aberystwyth, Machynlleth, Caernarfon, Llangefni, Llangollen – a llawer mwy o bentrefi a threfi ledled Cymru. Tywalltodd llifeiriant o eitemau ar gyfer ffoaduriaid i mewn i ganolfannau yn Llanelli, Dyserth, Wrecsam...

Cododd apêl DEC yn unig £6.5 miliwn yng Nghymru hyd yma. Fodd bynnag, mynegodd y Prif Weinidog Mark Drakeford rwystredigaeth gyda chyfyngiadau llywodraeth San Steffan ar fisas i ffoaduriaid.

**Strategaeth Ofod i arwain at filtareiddio?**

Ym mis Chwefror 2022 lansiodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething, Strategaeth Ofod Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Gwêl gyfleodd i greu swyddi â sgiliau da a chyfoeth yn y sector hwn. Rhestrir lleoliadau a fyddai'n elwa, megis Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot, Brychdyn, Llanbedr (Gwynedd), Aber-porth a Sir

Faesyfed. Fodd bynnag, mae'r rhestr o gwmnïau a gynhwysir yn destun pryder: Raytheon, Qinetiq, Qioptiq, Airbus Defence and Space. Mae'r cwmnïau hyn yn arbenigo mewn amddiffyn, technoleg taflegrau, hyfforddiant milwrol a seiberwedd. Mae Academi Heddwch Cymru yn bwriadu cynnwys ymchwiliad i hyn yn ei hymchwil i filtareiddio yng Nghymru.

**Canmlwyddiant yr Urdd**

Penblwydd hapus i Urdd Gobaith Cymru, y mudiad ieuencid Cymraeg, a fydd yn 100 oed eleni! Bydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol yr Urdd i bobl ifanc ledled y byd yn mynd allan ar 18 Mai. Neges eleni yw galw am weithredu ar argyfwng yr hinsawdd.

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd 2022 yn Ninbych yn y gwyliau hanner-tymor, o 30 Mai tan 4 Mehefin.

**Dewch i Dregaron – a rhoi help llaw!**

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Geredigion am y tro cyntaf er 1992, a bydd yn Nhregaron o'r 30 Gorffennaf i'r 6 Awst. Ar ôl dwy flynedd o oedi o achos Covid dylai'r croeso eleni (croesi bysedd!) fod yn arbennig iawn. Diau y bydd troad allan Epynt ar yr agenda, a theyrnedau i arloeswyr heddwch fel Henry Richard AS (1812-88) ac Annie Jane Davies (Mrs Hughes-Griffiths wedyn), Cadeirydd Cymru Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, a arweiniodd ddirprwyaeth Deiseb Heddwch Menywod 1923 i America.

Byddai CND Cymru yn croesawu cefnogaeth gan wirfoddolwyr i redeg y Babel Heddwch yn ystod yr wythnos.

# YMA, ACW... AC YM MHOBMAN

## 11-mlwyddiant Fukushima

Cafodd 11-mlwyddiant y trychineb niwclear yn Fukushima-Daiichi ei nodi ar 11 Mawrth gan y rali foreol ger Pont Menai sydd bellach yn draddodiad, a chan neges o gyd-gadernid a anfonwyd at Gyfeillion y Ddaear Japan.

## Gweithredu ar yr hinsawdd

Dioddefodd Cymru stormydd a thywydd eithafol y gaeaf yma eto. Fis Chwefror, bu protestwyr hinsawdd ym Mangor yn picedu Banc Barclays, cyllidwr mwyaf tanwydd ffosil yn Ewrop. O fewn misoedd i COP 26, roedd ASau Ceidwadol wrthi eto'n lobïo yn erbyn yr agenda garbon-isel. Yn sgil y sancsiynau i gefnogi Wcrain a'r argyfwng ynni, mae Boris Johnson yn ailystyried ffracio am nwy siâl ac yn 'mentro' y caiff Wylfa B ei atgyfodi. Oes yna'r fath air â 'rhyfel-galchu' yn bod?

## Gwasanaeth lechyd nid Trident

Gwelodd Cymru achosion Covid yn brigo pan oedd amrywiad Omicron yn ei anterth dros yr Wyl a'r Flwyddyn Newydd. Llaciwyd rhywfaint ar y cyfyngiadau ddiweddd mis Ionawr a'r bwriad yw eu dileu ddiweddd mis Mawrth 2022 – ddwy flynedd wedi'r clo cyntaf.

Erys y perygl o amrywiadau newydd, gan fod llawer rhan o'r byd â chyfraddau brechu isel iawn o hyd, ac mae cyfraddau'n codi'n aruthrol yn yr Alban eto. Erys ofnau hefyd ynghylch argaeledd profion, ac amddiffyn y rhai sydd ag imiwnedd diffygiol. Fel erioed, diolch o galon i'r GIG – sy'n dal i wynebu brwydr epig. Cofiwch, y GIG am byth, Trident byth!

## Taith Gerdded fis Gorffennaf

Mae criw o ieuencid CND Cymru am gerdded o Orsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa fel protest yn erbyn penderfyniad y llywodraeth i leoli SMRs ar y safleoedd a ddadgomisiwyd. Cynhelir yr orymdaith 8-diwrnod ddechrau mis

Gorffennaf. Caiff ei harwain gan bobl ifanc, ond croeso mawr i unrhyw un sydd am ymuno. Cysylltwch â Bethan Siân [bsj11@outlook.com](mailto:bsj11@outlook.com)

## Protestiadau am gost byw

Mae prisiau bwyd, tanwydd a gwres yn esgyn i'r entrychion, ac mae effaith sancsiynau rhyfel a gwleidyddiaeth pibau olew a nwy bellach yn bygwth trychineb economaidd. Fis Chwefror, trefnodd Cynulliad y Werin Cymru raliau ym Mangor a Chaerdydd. Galwodd nifer o brotestwyr am dreth gorelw ar enillion anferth cwmnïau tanwydd ffosil. Mae gwastraffu mynyddau o arian ar elfiantod gwyn fel Trident neu atgyfodi pŵer niwclear ar adeg o'r fath yn ddim llai na throedd.



Protestwyr cost byw yng Nghaerdydd ym mis Chwefror



# CYMRU DDI-NIWCLEAR YN 40

*Dathlu 40ain mlwyddiant Datganiad y 'Gymru Ddi-Niwclear', ac ymgyrchu i gael Cynghorau, Cynghorwyr a Seneddwr Cymru i addo eu cefnogaeth i Gytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear*

Ymunwch â'r ymgyrch i gael Cymru i ddatgan ei bod yn rhydd o arfau niwclear unwaith eto! Mae angen cefnogaeth pawb arnom i wneud taith ac ymgyrch eleni yn llwyddiant – cysylltwch â'ch trefnydd lleol, da chi, i helpu gyda'r arddangosfa a'r ymgyrch yn eich ardal.

Roedd y siaradwyr yn y weminar agoriadol ar 23 Chwefror yn cynnwys **Richard Outram** o'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA), **Jill Evans** (Cadeirydd CND Cymru) a **Susi Snyder** o ICAN (yr Ymgyrch Ryngwladol i Ddiddymu Arfau Niwclear).

MARY JONES



*Mae'r faner hon yn coffau 4ydd pen-blwydd Cymru Ddi-Niwclear*

## ARDDANGOSFA DEITHIOL CND CYMRU

*Bydd hon yn teithio trwy holl siroedd gwreiddiol 1982.*

Caiff mwy o ddyddiadau, manylion a lleoliadau eu hychwanegu at ein gwefan ar hyd y flwyddyn, felly cadwch olwg arni yn <https://www.cndcymru.org/>

### Wrecsam

28 Mawrth – 1 Ebrill Prifysgol Glyndŵr

**Cei Connah** i'w gadarnhau

### Llandudno

19 -21 Ebrill St John's, Eglwys y Methodistiaid Bangor

22-29 Ebrill Tŷ Cwrdd y Cyfeillion

**Llanidloes** i'w gadarnhau

### Aberhonddu

23-27 Mai Llyfrgell Aberhonddu

**Aberystwyth** i'w gadarnhau

**Hwlfordd** i'w gadarnhau

### Abertawe

17-22 Gorff. Amgueddfa Genedlathol y Glannau

### Tregaron

30 Gorff - 6 Awst Yr Eisteddfod Genedlaethol

**Merthyr Tudful** i'w gadarnhau

**Pen-y-bont ar Ogwr** i'w gadarnhau


**Aberdar** i'w gadarnhau

**Caerdydd** i'w gadarnhau

**Casnewydd** i'w gadarnhau

**Caerdydd:**

Y Senedd i'w gadarnhau



## Heb ei restru? Rhewch wybod i ni!

### • HEDDWCH A CHYFIAWNDER

#### Academi Heddwch Cymru

<https://www.wcia.org.uk/cy/academi-heddwch-cymru/>  
cysylltwch trwy Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (gweler isod)

#### Atal y Rhyfel Caerdydd

<https://www.stopwar.org.uk/cities/cardiff/> <https://www.facebook.com/groups/8359559957/>

#### CND Abertawe

Jan a Brian Jones:  
[swanseacnd@phonecoop.coop](mailto:swanseacnd@phonecoop.coop)

#### Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

<https://www.cymdeithasycymod.cymru/> [cymdeithasycymod@gmail.com](mailto:cymdeithasycymod@gmail.com) <https://twitter.com/Cymod> <https://www.facebook.com/Cymdeithas-y-Cymod-yng-Nghymru-Fellowship-of-Reconciliation-in-Wales-22533679486/>  
Jane Harries: 07720 087132  
Awel Irene: 078867 790971

#### Cynghrair Abertawe yn erbyn Rhyfel

<https://www.facebook.com/Swansea-Coalition-Against-War-STWC-762463453815577/>

#### Grŵp Heddwch a Chyfiawnder

**Bangor ac Ynys Môn** <https://www.facebook.com/groups/BYMPJG>  
Linda Rogers:  
[lindaclarerogers@btinternet.com](mailto:lindaclarerogers@btinternet.com)

#### Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Sir Gwyn

<https://www.facebook.com/groups/151752801515544/>  
Donald Saunders:  
[DonsaundersOpt@aol.com](mailto:DonsaundersOpt@aol.com)  
Efa Wulle [efawulle@gmail.com](mailto:efawulle@gmail.com)

#### Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth

<https://www.facebook.com/groups/371260321553/>  
Lotte Reimer:  
[lotte.reimer@gmail.com](mailto:lotte.reimer@gmail.com)  
Michael Freeman:  
[michaelfreeman9@btinternet.com](mailto:michaelfreeman9@btinternet.com)

### • YNNI NIWCLEAR

#### CADNO Trawsfynydd

<https://www.facebook.com/CADNO-101243424846637/>  
Meilyr Tomos:  
[meilyr.tomos@btinternet.com](mailto:meilyr.tomos@btinternet.com)

#### Cynghrair Achub Aber Hafren

<https://www.save-the-severn.com/>

#### Cynghrair Wrth-niwclear Cymru (WANA)

<https://www.wana.wales/> <https://www.facebook.com/WelshAntiNuclearAlliance>  
Blwch SP 90, Llandrindod, Powys LD1 9BP Richard Bramhall

#### Pobl Atal Wylfa B

<https://www.stop-wylfa.org/cy/> <https://www.facebook.com/groups/StopWylfaB>  
PAWB Ynys Môn:  
Robat Idris 01248 450126  
PAWB Gwynedd:  
Dylan Morgan 01248 7502

### • GWEITHREDU

**Cynulliad y Werin Cymru** <https://www.facebook.com/PeoplesAssemblyAgainstAusterityWales/>

#### XR Heddwch

<https://xrpeace.org/> <https://www.facebook.com/xrpeace/>  
Angie Zelter: (Trefyclo, Powys) [reforest@gn.apc.org](mailto:reforest@gn.apc.org)

### • SENEDD CYMRU

#### Deisebau Senedd Cymru

<https://deisebau.senedd.cymru/>

### • RHYNGWLADOL

#### Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WICA)

<https://www.wcia.org.uk/cy/centre@wcia.org>  
Y Deml Heddwch a Iechyd, Rhodfa'r Brenin Edward, Caerdydd CF10 3AP  
029 2022 8549

#### Cymdeithas Y Cenhedloedd Unedig CCU

Cangen Caerdydd: Robin Attfield [AttfieldR@cardiff.ac.uk](mailto:AttfieldR@cardiff.ac.uk) <https://una.org.uk/branch/una-car>  
Cangen Menai: Jennie Jones [jenniefreya@gmail.com](mailto:jenniefreya@gmail.com) <https://una.org.uk/MenaiUNA> <https://www.facebook.com/groups/una.menai.wales>

### • CORAU

#### Canwyr y Stryd Bangor

[hilarycathwilson@gmail.com](mailto:hilarycathwilson@gmail.com)

#### Côr Cochion Caerdydd

<https://www.facebook.com/groups/144127665598325>  
Wendy Lewis:  
[wendya.lewis@sky.com](mailto:wendya.lewis@sky.com)

#### Côr Gobaith Aberystwyth


Nest Howells:  
[n.howells579@btinternet.com](mailto:n.howells579@btinternet.com)  
Lotte Reimer:  
[lotte.reimer@gmail.com](mailto:lotte.reimer@gmail.com)

#### Côr Heddwch y Pales Llandegla

Llandrindod  
Susie Ennals: [susie@ennals.org.uk](mailto:susie@ennals.org.uk)



# gweithredu



## Bob Cotterill

1945-2021

Mynychodd Bob Cotterill bob digwyddiad heddwch ac amgylcheddol yn Abertawe dros ryw 45 mlynedd.

Bu'n aelod bwrdd yr Ymgrych yn Erbyn y Fasnach Arfau am flynyddoedd lawer ac yna'n gydllynydd Greenpeace Abertawe. Roedd yn un o dresmaswyr Greenpeace yn Sellafield ar fore oer, gwyntog yn 1996.

Âi lygaid pefriog, roedd ganddo bob amser air ffraeth i'w rannu, hyd yn oed pan oedd ei iechyd yn pallu.

Mawr yw'r golled ar ei ôl.

BRIAN JONES

## Y CELFYDDYDAU AC ADOLYGIADAU

### 10,000 o flynyddoed o ymbelydredd niwclear

#### HIRBARHAD –

**Perfformiad mewn Amser**  
Pontio, Bangor

Ar 3 Chwefror 2022 ymostyngodd grŵp o berfformwyr i gyfnod o hunan-bryfocio yng ngheudwll celf Bangor, Pontio. Eu hymholiad: pa mor hir y gallwn ni ddioddef amser? Gyda Covid-19, newidiodd ein dealltwriaeth o amser, ansicrwydd a gofal yn wir – ond a wnaeth hynny ein paratoi ar gyfer amser daearegol?

Roedd dau ddeg tri o fwcedi gwyn a chwe bwced du yn pelydru corws llesmeiriol o sŵn gwyn i gythryblu'r artistiaid, a wisgai siwtiau gwyn, menig a masgiau wyneb tafladwy, y cafwyd gwared ohonynt, o Flwch Gwyn agos-i'r-wyneb Pontio, i'r bar ar y llawr gwaelod, ac oddi yno, eu traddodi i'r genhedlaeth nesaf, i ddod o hyd iddynt mewn rhyw

gadwrfa o fewn ebargofiant Pontio. Po hwyraf y dydd, y mwyaf araf eu symudiadau, y distawaf y côr, y tristaf y byd. Heddiw, mae'r artistiaid wedi mynd, ond bydd eu cyrff yn cofio'u gwytnwch am fwy na hanner oes, ac mae waliau Pontio yn fwy llachar wyn nag erioed o'r blaen.

SARAH POGODA

### MANUAL FOR SURVIVAL A CHERNOBYL GUIDE TO THE FUTURE

**Kate Brown**

Penguin Books 2020 432tt

Clawr caled £20 ISBN 0241352016

Clawr meddal £9.34 ISBN 014198851

Ceisia'r llyfr egluro'r gwahaniaeth rhwng dau safbwynt eithafol ar ganlyniadau damwain Chernobyl, sef "dim ond 54 o ddynion a fu farw" a "mwy na 200,000 o ganserau anghueol". Fe'i cefais yn anodd rhoi'r gyfrol hon i lawr: straeon arwrol am weithwyr iechyd a dinesydd-

wyddonwyr, dirgelwch pam y rhoddwyd statws "diddymwr" i 298 o weithwyr mewn ffatri wîlan 53 milltir o Chernobyl, hunan-les y sefydliadau rhyngwladol niwclear. . . mae llawer o'r llyfr yn debyg i stori dditectif hanesyddol.

Treuliodd Kate Brown a'i hymchwylwyr ddegawd yn ceisio atebion. Mewn llawer achos, nhw oedd y cyntaf erioed i bori'r archifau Rwsieg, Wcraïne neu Felarwseg lleol. Cynhaliwyd mwy na 50 o gyfweiliadau. Mae bron 100 tudalen yn manylu ar yr holl ddogfennau a ddyfynnir yn y testun.

Fel yr hanesydd cyntaf a aned yn yr Undeb Sofietaidd i gael ei henwebu i Gymdeithas Haneswyr America, mae ganddi gymwysterau unigryw i astudio'r canlyniadau i iechyd a'r amgylchedd pan ryddheir ymbelydredd o ddamweiniau niwclear a phroffion arfau niwclear. Darllen hanfodol.

BRIAN JONES



# Carl Iwan Clowes

## 1943-2021

Testun tristwch i ymgyrchwyr gwrth-niwclear ledled Cymru oedd clywed am farwolaeth Dr Carl Clowes fis Rhagfyr diwethaf. Dros y 15 mlynedd diwethaf, roedd Carl wedi cysegru'r rhan fwyaf o'i egni gwleidyddol i ymgyrchu yn erbyn pŵer niwclear.

Ganed Carl Clowes ym Manceinion ym 1943. Ym 1966 priododd Dorothi McCormick, therapydd lleferydd ac iaith o Iwerddon, y cyfarfu â hi tra'n astudio meddygaeth. Roeddent yn ddau enaid hoff cytun a phenderfynwyd dychwelyd i fro teulu Carl yng ngogledd Cymru. Roedd practis meddygol Carl yn gwasanaethu Bro'r Eifl. Aeth ymlaen i ennill gradd Meistr mewn meddygaeth gymdeithasol, gan ymuno yn y pen draw â bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Arweiniodd ymrwymiad Carl i'r gymuned leol at sefydlu Antur Aelhaearn ym 1974, y Fenter Gydweithredol Gymunedol gyntaf ym Mhrydain. Ym 1978 sefydlodd Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, gan agor y Ganolfan Iaith Genedlaethol ysbrydoledig ym mhentref chwarel segur Porth y Nant ym 1981. Ym 1985 lansiodd Carl Dolen Cymru, partneriaeth rhwng Cymru a Lesotho a greodd gysylltiadau addysgol a diwylliannol parhaol.

Wedi symud i Roscefnhir, Ynys Môn, parhaodd Carl â'r egwyddor o 'feddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol' – a meddwl yn gadarnhaol, bob amser. Roedd ei gyhoeddiad, Manifesto Môn yn 2012, yn enw PAWB (Pobl Atal Wylfa B), yn amlinellu dulliau cynaliadwy o gynhyrchu trydan ymhlith syniadau eraill ar gyfer adfywio economi'r ynys.

Ar yr un pryd agorodd Carl gysylltiadau ymgyrchu ag Urgewald yn yr Almaen, a arweiniodd at gyfle i annerch CCB cyfrandalwyr EOn, y cwmni trydan a oedd, gyda RWE npower, yn berchen ar gonsortiw Horizon Nuclear.



Casglodd Carl bod Horizon Nuclear yn mynd yn fwyfwy problematig i'r cwmnïau Almaenig hyn. Ar ôl i Hitachi brynu Horizon yn 2012, teithiodd Carl i Japan ddwywaith, gan ymweld â Tokyo a Fukushima, i gysylltu ag ymgyrchwyr gwrth-niwclear yno. Roedd ei ail ymweliad, fel rhan o fenter Green Cross International, yn cynnwys dirprwyaeth o bedwar o Gymru, yn cynnwys Brian Jones, Is-Gadeirydd CND Cymru. Arweiniodd hyn at ymweliad gan gyn-Brif Weinidog Japan, Naoto Kan, a oedd mewn grym adeg trychineb Fukushima, â Chaerdydd ac Ynys Môn yn 2015. Bu ymweliadau cyfnewid pellach rhwng Japan a Chymru yn sgil hynny. Yn 2017 cadeiriodd Carl gynhadledd Cymru Ddi-Niwclear Werdd yn Aberystwyth, a chynhadledd Llundain CND y DU ar bŵer niwclear yr un flwyddyn.

Roedd Carl wedi dychwelyd i fyw ym Mhencaenewydd, Llŷn, yn ddiweddar. Gedy ar ei ôl Dorothi a'u pedwar o blant: Rhiannon, Angharad, Cian Ciarán a Dafydd Ieuan (y ddau olaf yn aelodau o fand y Super Furry Animals). Mae Cian, o Gaerdydd, gyda chefnogaeth ei frawd a'i chwiorydd, yn parhau â gweithredu gwrth-niwclear Carl gydag ymgyrch Geiger Bay.

**CND CYMRU**

*Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.*



**gwefan:** [www.cndcymru.org](http://www.cndcymru.org)  
**e-bost:** [heddwch@cndcymru.org](mailto:heddwch@cndcymru.org)  
**trydar:** @cndcymru  
**instagram:** @cndcymru  
**gweplyfr:** <https://www.facebook.com/cndcymru/>

**CYSYLLTIADAU:**

**CADEIRYDD:** *Jill Evans* [Rhondda]

[jillrhondda@yahoo.co.uk](mailto:jillrhondda@yahoo.co.uk)

07803 902 401

**YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL:**

*Bethan Siân* [Aberystwyth]

[bsj11@outlook.com](mailto:bsj11@outlook.com)

07933 791 207

**TRYSORYDD AC AELODAETH:**

*Michael Freeman*

[michael.freeman9@btinternet.com](mailto:michael.freeman9@btinternet.com)

CND Cymru, 9 Rhiw Briallu, Llanbadarn

Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

**CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:**

*Jill Gough*

[jillegough@gmail.com](mailto:jillegough@gmail.com)

*John Cox* [Abersychan]

[drjohncox121@gmail.com](mailto:drjohncox121@gmail.com)

01495 773495

*Brian Jones* [Pontardawe]

[brian.jones@phonecoop.coop](mailto:brian.jones@phonecoop.coop)

01792 830330

*Duncan Rees* [Glannau Dyfrdwy]

[Duncan.rees01@gmail.com](mailto:Duncan.rees01@gmail.com)

07534 975461

*Philip Steele* [Ynys Môn]

[phil\\_steele@btinternet.com](mailto:phil_steele@btinternet.com)

01248 490715

**CYNRYCHIOLWYR I GYNGOR CND Y DU:**

*Linda Rogers* [Ynys Môn], *Bethan Siân*

[Aberystwyth], *Duncan Rees* [Wrecsam]

**HEDDWCH**

*Heddwch* yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiâu CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau at y golygydd.

**Golygydd:** Philip Steele

[phil\\_steele@btinternet.com](mailto:phil_steele@btinternet.com) 01248 490715

**Cyfieithydd:** Siân Edwards

[siandefynnog@hotmail.co.uk](mailto:siandefynnog@hotmail.co.uk)

**Cynhyrchu a phostio:** Redkite Print

[jonplumpton@gmail.com](mailto:jonplumpton@gmail.com)

Bydd rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym Mis Awst 2022.

**PAPUR NEU DDIGIDOL?**

Danysgrifwyr: ydych chi am ddefnyddio llai o bapur? Cofiwch y gellwch dderbyn *Heddwch* ar ffurf electronig os yw'n well gennych, dim ond i chi hysbysu [michael.freeman9@btinternet.com](mailto:michael.freeman9@btinternet.com) o'ch cyfeiriad ebost cyfredol.

**YMUNWCH Â CND CYMRU NAWR!**

<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth>

